

# Graddfa Sgorio Ymatebolrwydd Rhieni (PaRRiS): Llawlyfr Sgorio

Penny Levickis, PhD

Canolfan REEaCh, Ysgol Addysg i Raddedigion Melbourne  
Prifysgol Melbourne

Llawysgrif heb ei Chyhoeddi

Rhagfyr 2019

## Hawlfreintiau a hawliau eiddo deallusol

Mae hawlfraint testun y llawlyfr hwn yn perthyn i'r Awduron. Gellir gwneud copïau (trwy unrhyw broses) naill ai'n llawn, neu ddetholiadau ohono, yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan yr Awduron yn unig. Rhaid i'r dudalen hon fod yn rhan o unrhyw gopïau o'r fath a wneir. Ni chaniateir gwneud copïau pellach (trwy unrhyw broses) o gopïau a wneir yn unol â chyfarwyddiadau o'r fath heb ganiatâd (yn ysgrifenedig) yr Awduron. Mae perchnogaeth unrhyw hawliau eiddo deallusol y gellir eu disgrifio yn y llawlyfr hwn, sy'n deillio o Raddfa Sgorio Ymatebolrwydd Rhieni (PaRRiS): Llawlyfr Sgorio wedi'i freinio â'r Awduron, yn amodol ar unrhyw gytundeb ymlaen llaw i'r gwrthwyneb, ac ni chaniateir iddo fod ar gael i'w ddefnyddio, gan gynnwys fel cynnyrch masnachol gan drydydd partion heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awduron, a fydd yn rhagnodi telerau ac amodau unrhyw gytundeb o'r fath. Mae rhagor o wybodaeth am yr amodau y gellir datgelu ac ecsbloetio oddi tanynt ar gael gan yr Awduron.

**Cyfeiriad a awgrymir:** Levickis, P. (2019) Parental Responsiveness Rating Scale (PaRRiS): Scoring Manual [unpublished manuscript]. Melbourne: The University of Melbourne, Melbourne Graduate School of Education, REEaCh Centre.

## Cefndir

Cynhaliwyd gwaith rhagarweiniol gan Levickis a'i chydweithwyr<sup>1</sup> i ddatblygu graddfa sgorio arsylwadol o ryngweithio rhwng rhiant a phlentyn, yn benodol mesur ymatebolrwydd rhieni. Addaswyd y Raddfa Sgorio Ymatebolrwydd Rhieni (PaRRiS) o raddfa sgorio ymatebolrwydd byd-eang Marfo<sup>2</sup>. Yn y gwaith blaenorol hwn, cafodd clipiau fideo o barau mam-plentyn yn ystod chwarae rhydd eu graddio'n ddall ar yr offeryn PaRRiS pan yn 2 oed ac aseswyd canlyniadau iaith gan ddefnyddio mesur safonol pan yn 3 a 4 oed. Dangoswyd bod sgoriau PaRRiS yn rhagweld yn gryf sgoriau mynegiannol, goddefol a chyfanswm iaith yn 3 a 4 oed. Cyflawnwyd lefel uchel o ddibynadwyedd rhwng-sgoriwr ar yr offeryn PaRRiS. Dangosodd y canfyddiadau ei bod yn ymarferol hyfforddi staff i ddefnyddio PaRRiS yn effeithlon ac yn ddibynadwy mewn sampl gymunedol fawr o ddeuadau mam-plentyn.<sup>3</sup> Yna profodd Levickis et al.<sup>4</sup> ddichonoldeb hyfforddi nyrsys iechyd plant cymunedol i ddefnyddio PaRRiS gyda phlant 24 -30 mis oed er mwyn mesur ansawdd rhyngweithio rhwng rhiant a phlentyn yn ddibynadwy yn ymarferol.

Diffinnir **Ymatebolrwydd** fel rhianta sy'n ddigwyddiadol, yn ddatblygiadol briodol ac yn brydlon mewn ymateb i gychwyniadau plentyn.<sup>5</sup> Mae ymatebolrwydd sy'n gysylltiedig â datblygiad iaith plentyn yn cynnwys ymddygiadau oedolion sy'n digwydd yn syth ar ôl ymddygiad plentyn (gweithred neu leisio/lafaroli) ac sy'n gysylltiedig â ffocws sylw'r plentyn. Er enghraifft, mae plentyn yn esgus coginio ar stôf degan, mae'r rhiant yn gofyn, 'beth wyt ti'n ei goginio?'

## Diffiniadau Sgorio Ymatebolrwydd

**1 = isel iawn** Anaml y mae rhiant yn ymateb mewn ffordd ddatblygiadol briodol naill ai ar lafar neu'n ddi-eiriau i unrhyw un o ystumiau neu lafaroli'r plentyn AC mae'r rhiant yn ceisio ailgyfeirio ymddygiad y plentyn, yn hytrach na dilyn diddordeb y plentyn

*Enghraifft o sgôr isel iawn:* Drwy gydol y sesiynau chwarae, mae'r rhiant yn colli cyfleoedd i ymateb mewn ffordd ddigwyddiadol a phriodol i leisio'r plentyn (e.e., mae'r plentyn yn chwarae gyda cheffyl tegan ac yn dweud 'ceffyl', ond nid yw'r rhiant yn ymateb neu efallai'n nodio nac yn dweud 'uh-huh'). Mae'r rhiant yn treulio'r sesiwn chwarae cyfan/bron i gyd yn ailgyfeirio'r plentyn, er enghraifft, mae'r rhiant yn darllen llyfr i'r plentyn ac mae'r plentyn yn crwydro ac yn dechrau chwarae gyda phos, mae'r rhiant yn ceisio tynnu sylw'r plentyn oddi ar y pos ac yn ôl i'r llyfr. *Mae'n bwysig nodi, os yw'n briodol i riant ailgyfeirio plentyn, er enghraifft, oherwydd pryderon diogelwch, na fyddai hyn yn cael ei gyfrif fel ailgyfeirio.*

**2 = isel** Mae rhiant yn ymateb yn achlysurol mewn ffordd ddatblygiadol briodol naill ai ar lafar neu'n ddi-eiriau i unrhyw un o ystumiau neu lafaroli'r Plentyn AC/NEU mae'r rhiant yn treulio mwy o amser yn ceisio ailgyfeirio ymddygiad y Plentyn, yn hytrach na dilyn diddordeb y Plentyn

*Enghraifft o sgôr isel:* Mae'r rhiant yn treulio mwy o amser yn ystod y sesiwn chwarae yn ceisio ailgyfeirio sylw'r plentyn yn hytrach na dilyn diddordeb y plentyn. Mae'r rhiant yn labelu (e.e., plentyn yn codi dymi dol a rhiant yn dweud, 'dymi') ychydig o weithiau mewn ymateb i ymddygiad y plentyn yn ystod y sesiwn, ond mae'r rhiant hefyd yn colli llawer o gyfleoedd i ymateb i lafaroli'r plentyn. Gan fod y rhiant yn defnyddio labeli ychydig o weithiau (ymddygiadau ymatebol amodol) ond hefyd yn colli cyfleoedd i ddarparu mewnbwn ieithyddol ac yn ailgyfeirio mwy na dilyn diddordeb y plentyn, mae sgôr o 2 yn cael ei roi yn hytrach na 3.

<sup>1</sup> Hudson S, Levickis P, Down K, Nicholls R & Wake M. Maternal responsiveness predicts child language at ages 3 and 4 in a community-based sample of slow-to-talk toddlers. *International Journal of Language & Communication Disorders* u. 2015;50: 136-142

<sup>2</sup> Marfo K. Correlates of maternal directiveness with children who are developmentally delayed. *American Journal of Orthopsychiatry*. 1992;62(2), 219-233.

<sup>3</sup> Down et al 2014 Measuring maternal responsiveness in a community-based sample of slow-to-talk toddlers. *Child Care Health and Development*. 2015;41: 329-333.

<sup>4</sup> Levickis, P., McKean, C., Walls, E., & Law, J. (2019). Training community health nurses to measure parent-child interaction: a mixed-methods study. *The European Journal of Public Health*.

<sup>5</sup> Bornstein MH, Tamis-LeMonda CS. Maternal responsiveness and cognitive development in children. *New Directions in Child & Adolescent Development*. 1989;43:49-61.

**3 = cymedrol** Mae rhiant yn treulio rhywfaint o amser yn ymateb mewn ffordd ddatblygiadol briodol naill ai ar lafar neu'n ddi-eiriau i ystumiau neu lafaroli'r Plentyn, a pheth amser yn eu hanwybyddu A/NEU mae'r rhiant yn treulio amser cyfartal yn dilyn diddordeb y Plentyn ac yn ailgyfeirio ymddygiad y Plentyn

Enghraifft o sgôr cymedrol: Mae Mam yn ymateb rhywfaint o'r amser mewn ffordd amodol a datblygiadol briodol, e.e., gyda labeli, ond yn colli cyfleoedd i ddynwared neu ehangu ar lafaroli'r plentyn. Mae'r rhiant yn dilyn diddordeb y plentyn tua hanner yr amser, wrth ailgyfeirio hanner yr amser.

**4 = uchel** Mae'r rhiant yn aml yn ymateb mewn ffordd ddatblygiadol briodol naill ai ar lafar neu'n ddi-eiriau i unrhyw un o ystumiau neu lafaroli'r plentyn A/NEU Mae'r rhiant yn treulio mwy o amser yn dilyn diddordeb y Plentyn yn hytrach nac ailgyfeirio ymddygiad y Plentyn

Enghraifft o sgôr uchel: Mae'r rhiant yn ymateb mewn ffordd amodol a datblygiadol briodol i ymddygiad y plentyn, e.e., mae'r plentyn yn dweud 'Ceffyl', mae'r rhiant yn dweud 'Ceffyl, pa sŵn mae ceffyl yn ei wneud?' Mae'r rhiant yn gofyn cwestiynau datblygiadol briodol mewn ymateb i ffocws sylw'r plentyn ac yn ymateb i eiriad y plentyn. Mae'r rhiant yn ceisio ailgyfeirio sylw'r plentyn o un gweithgaredd i'r llall ond mae'n treulio mwy o amser yn dilyn diddordeb y plentyn nag ailgyfeirio ei ymddygiad.

**5 = uchel iawn** Mae rhiant yn aml yn ymateb mewn ffordd ddatblygiadol briodol naill ai ar lafar neu'n ddi-eiriau i ystumiau neu lafaroli'r Plentyn AC Anaml y bydd y rhiant yn ceisio ailgyfeirio ffocws y Plentyn o'r gweithgaredd cyfredol, ond mae'n dilyn diddordebau'r plentyn

Enghraifft o sgôr ucheliawn: Trwy gydol y sesiwn chwarae, mae'r rhiant yn dilyn diddordeb y plentyn (e.e., mae'r rhiant yn darllen llyfr i'r plentyn, mae'r plentyn yn symud i ffwrdd i ddechrau gwneud pos, felly yn hytrach na cheisio annog y plentyn i ddod yn ôl at y llyfr, mae'r rhiant yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud erbyn hyn). Mae'r rhiant yn ymateb yn aml ac yn gyson i leisio'r plentyn (e.e., mae'r plentyn yn chwarae gyda cheffyl tegan ac yn dweud 'ceffyl', mae'r rhiant yn dynwared ac yn dweud 'ceffyl' neu'n ehangu ac yn dweud 'mae'n geffyl mawr, brown').

*Sylwer: Manyleb o raddau cyfeirioldeb rhieni: mae 'ailgyfeirio ymddygiad y plentyn' yn cyfeirio at ailgyfeirio sylw'r plentyn oddi wrth ei chwarae a'i ddiddordebau cyfredol ar yr adeg honno.*

---

### **Sgorio PaRRiS**

Sgoriwch y pâr rhiant-plentyn a arsylwyd yn seiliedig ar raddfeydd ymatebolrwydd rhieni isod (cylchwch un yn unig):

Isel iawn	Isel	Cymedrol	Uchel	Uchel iawn
1	2	3	4	5

Sylwadau/nodiadau ychwanegol am arsylwi:

---

---

---